**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Rhentwyr**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**13 Mawrth 2025**

Lluniodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Hawliau Rhentwyr Llywodraeth y DU.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad a 13 casgliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion.

## Ymatebion i'r argymhellion

**Argymhelliad 1 – Dylai Llywodraeth Cymru:**

1. **roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y darpariaethau yn y Bil Hawliau Rhentwyr nad oes cytundeb o hyd ynghylch a oes angen cydsyniad ar eu cyfer;**
2. **esbonio'r goblygiadau pe na cheir cytundeb ar y darpariaethau hynny.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 73 (gweithgareddau tai o dan gynllun y sector rhentu cymdeithasol) mewn perthynas â diwygiadau i Ddeddf Tai 1996; cymal 141 (pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol); ar gyfer rhan o is-adrannau (1), (3) a (7) cymal 140 (Rheoliadau); ac ar gyfer diwygiadau sy'n cael eu gwneud yng nghymal 31 ac Atodlen 2 o'r Bil i adran 1A(3) o Ddeddf Tai 1988 a pharagraff newydd 29A o Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Nodwyd casgliadau Llywodraeth y DU ynghylch a ddilynir y broses LCM yn Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar 11 Medi 2024 (sylwer bod Atodiad A yn cael ei hepgor o fersiwn ddiweddarach o'r Nodiadau gan fod gwall ynddo).

Er ein bod yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y materion hyn, ein safbwynt o hyd yw ein bod angen cydsyniad y Senedd, ac felly rydym wedi ceisio cydsyniad yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**Argymhelliad 2 - Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio sut y mae defnyddio'r Bil Hawliau Rhentwyr i ddeddfu ym maes datganoledig tai yn gyson â'r egwyddorion gwreiddiol ar gyfer defnyddio Biliau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn lle hynny mewn Bil Senedd, byddai hynny wedi golygu aberthu ac felly byddai'n effeithio ar ddarpariaeth mewn mannau eraill. Roedd yn amlwg i mi y byddai cefnogi Bil y DU yn galluogi'r diwygiadau pwysig hyn i fynd rhagddynt, a dod â manteision i bobl Cymru, tra'n cynnal gwaith deddfwriaethol allweddol arall.

**Argymhelliad 3 - Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu asesiad effaith rheoleiddiol gan gynnwys ei asesiad effaith ariannol i'r Pwyllgorau sy'n craffu ar y Memorandwm.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod**

Rydym eisoes wedi cynnwys asesiad o fewn yr LCM a gyhoeddwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi. O'r herwydd, ac yn unol â'r rheolau diffiniedig ynghylch y weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU, ni fyddaf yn cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y darpariaethau hyn.

**Argymhelliad 4 - Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro pam nad oes unrhyw gostau i landlordiaid sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Bydd angen i landlordiaid a/neu eu hasiantau adolygu eu contractau i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru yng ngoleuni'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn y Bil am y darpariaethau ynghylch gwahaniaethu. Gwneir hyn drwy Rhentu Doeth Cymru a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu dogfennaeth i landlordiaid yn rhad ac am ddim. Bydd landlordiaid cymdeithasol hefyd yn cael dogfennaeth yn rhad ac am ddim drwy Lywodraeth Cymru.

Byddwn hefyd yn diweddaru pob landlord ac asiant preifat am eu rhwymedigaethau o dan y gyfraith newydd drwy Rhentu Doeth Cymru, heb unrhyw gost iddynt. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i landlordiaid ac asiantau sy'n rheoli eiddo rhent preifat yng Nghymru gael trwydded i weithredu. Mae rhan o ddod yn drwyddedig yn cynnwys hyfforddiant gorfodol. Bydd y darpariaethau

ynghylch gwahaniaethu yn y Bil hwn hefyd yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw, unwaith eto heb unrhyw gost ychwanegol.

Bydd unrhyw newid mewn arfer busnes yn fach iawn - bydd landlordiaid ac asiantau yn cael eu gwahardd rhag gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n hawlio budd-daliadau neu'r rhai sydd â phlant. Nid ydym yn credu y bydd hyn yn arwain at unrhyw gostau i unrhyw ddeiliad contract na landlord.

**Argymhelliad 5 - Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i ganfod o dan ba amgylchiadau y mae'r pwerau o dan gymal 47 yn debygol o gael eu harfer ac i ddarparu'r wybodaeth honno i'r Pwyllgor.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae cymal 47 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd bellach yn Gymal 50 yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil a gyhoeddwyd ar wefan Senedd y DU ar 15 Ionawr 2025.

Pwrpas y pŵer o dan gymal 50 yw galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ymestyn y darpariaethau ym Mhennod 4 o Ran 1 i grwpiau ychwanegol yng Nghymru mewn amgylchiadau lle mae'n ymwneud â mater a gadwyd yn ôl ac a fyddai'n disgyn y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (paragraffau 346 a 347 o'r Nodiadau Esboniadol).

Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i ganfod o dan ba amgylchiadau y maent yn debygol o arfer y pŵer o dan gymal 50. Byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor pan fydd y wybodaeth honno'n cael ei derbyn.

**Argymhelliad 6 - Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 47 o'r Bil Hawliau Rhentwyr.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod**

Yn dilyn ystyriaeth bellach ac ymgysylltu â Llywodraeth y DU, rwy'n parhau o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Cymal hwn a fydd yn ôl fy nealltwriaeth i, ond yn arferadwy mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Felly, ni fyddaf yn ceisio cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Cymal 50 o'r Bil Hawliau Rhentwyr.